


## Gêm gardiau

Defnyddiwch becyn o gardiau chwarae. Tynnwch y jaciaid, y breninesau a'r brenhinoedd allan.




- ◆ Cymerwch dro.
- ◆ Cymerwch garden a rholiwch ddis.
- ◆ Lluoswch y ddau rif.
- ◆ Ysgrifennwch yr ateb ar bapur. Cadwch gyfanswm wrth fynd ymlaen.
- ◆ Y cyntaf i fynd dros 301 sy'n ennill!

82	33	60	11	73	22
65	12	74	28	93	51
37	94	57	13	66	38
19	67	76	41	75	85
86	29	68	58	20	46
50	69	30	78	59	10

## Gweddillion

Gwnewch grid 6 x 6 fel hwn.

- ◆ Dewiswch dabl 7, 8 neu 9.
- ◆ Cymerwch dro.
- ◆ Rholiwch ddis.
- ◆ Dewiswch rif ar y bwrdd, e.e. 59. Rhannwch hwn â rhif y tabl, e.e. 7. Os yw gweddill  $59 \div 7$  yr un peth â rhif y dis, gallwch roi cownter neu ddarn arian dros y rhif ar y bwrdd
- ◆ Y cyntaf i gael pedwar cownter mewn llinell syth sy'n ennill!




## Dyblau a threblau

- ◆ Rholiwch ddau ddis.
- ◆ Lluoswch y ddau rif i gael eich sgôr.
- ◆ Rholiwch un dis eto. Os cewch eilrif, dyblwch eich sgôr. Os odrif, treblwch eich sgôr.
- ◆ Cadwch gyfanswm eich sgôr wrth fynd ymlaen.
- ◆ Y cyntaf i gael dros 301 sy'n ennill.

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 6

YGG Castell-nedd




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg  
eich plentyn

## Targedau – Blwyddyn 6

**Erbyn diwedd Blwyddyn 6, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu ...**

- Gwybod yr holl dablau i  $10 \times 10$ , yn enwedig i rannu, e.e.  $63 \div 7 = 9$ , gan gyfrifo gweddill yn gyflym.
- Lluosi a rhannu degolion â 10 neu 100 yn eu pen, e.e.  $2.61 \times 10$ ,  $53.2 \div 100$ .
- Rhoi rhifau, gan gynnwys degolion, yn nhrefn eu maint, e.e. 1.06, 0.099, 0.25, 1.67.
- Defnyddio pensil a phapur i adio a thynnu degolion, e.e.  $3.91 + 8.04 + 24.56$ , neu  $13.3 - 1.27$ .
- Defnyddio pensil a phapur i luosi a rhannu, e.e.  $387 \times 46$ ,  $21.5 \times 7$ ,  $539 \div 13$ ,  $307.6 \div 4$ .
- Canslo ffracsïynau e.e. lleihau  $\frac{4}{20}$  i  $\frac{1}{5}$ , a chyfrifo pa ffraciwn yw'r mwyaf, e.e.  $\frac{7}{12}$  neu  $\frac{2}{3}$ .
- Cyfrifo canrannau syml cyfanrifau, e.e. 25% o £90 yw £22.50.
- Amcangyfrif onglau a defnyddio onglydd i'w mesur.
- Cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau syml y gellir eu rhannu'n betryalau, e.e. 
- Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull gweithio.
- Defnyddio cyfesurynnau i blotio safle pwyntiau.
- Deall a defnyddio'r wybodaeth mewn graffiau, siartiau a thablau.

### Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gwybod sut i gyfrifo symiau ar bapur ond mae angen iddynt weld hefyd pryd y byddai'n gyflymach cyfrifo yn eu pen.

### Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

#### Mynd ar daith

Defnyddiwch y siart yn nhudalennau blaen atlas ffordd sy'n dangos y pellteroedd rhwng gwahanol leoedd.

- ◆ Dowch o hyd i'r lle agosaf atoch chi.
- ◆ Gofynnwch i'ch plentyn gyfrifo faint o amser y byddai'n cymryd i deithio i rai lleoedd yn Lloegr petaech chi'n teithio 60 milltir yr awr ar gyfartaledd, h.y. 1 filltir y funud, e.e.

Caerefrog i Preston:      90 milltir      1 awr 30 munud

Caerefrog i Dover:      280 milltir      4 awr 40 munud

Ceisiwch annog eich plentyn i gyfrif fesul 60 i gyfrifo'r atebion yn ei ben.

**£1,000,000**

#### Miliwn o bunnoedd

Ystyriwch bod £1 000 000 gennych i'w gwario neu i'w rhoi. Cynlluniwch sut y byddech chi'n gwario'r arian gyda'ch plentyn, i'r ceiniog olaf.